Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Cefnogi a hybu'r Gymraeg / Supporting and Promoting the Welsh Language
CWLC(5) SWL11
Ymateb gan Colegau Cymru / Evidence from Colleges Wales

ColegauCymru
CollegesWales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
National Assembly for Wales

Culture, Welsh Language and Communications Committee:

Cefnogi a hybu'r Gymraeg
Supporting and promoting the Welsh Language

14.09.2018

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

Cyflwyniad

1. Mae ColegauCymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymchwiliad Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar fater cefnogi a hybu’r Gymraeg.

2. ColegauCymru[1] yw’r elusen addysg ôl-orfodol sy'n cynrychioli'r 13 coleg a sefydliad addysg bellach (AB) yng Nghymru. Yn 2014/15 roedd mwy na 150,000 o ddysgwyr wedi'u cofrestru mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Dewis dwy ran o dair o'r holl ddysgwyr 16-18 oed yng Nghymru yw astudio mewn coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn oedolion. Yn 2014/15, roedd 57% o ddysgwyr y colegau yn oedolion dros 19 oed. Roedd rhan fwyaf ohonynt yn astudio'n rhan-amser. Rydym yn hapus i'n hymateb cael ei rannu’n gyhoeddus.

Cwestiwn 1

Gwaith craffu ar ôl deddfu ar Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 – asesu llwyddiannau a chyfyngiadau canfyddedig y ddeddfwriaeth, ac effaith ac effeithiolrwydd safonau’r Gymraeg wrth wella gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwella mynediad atynt.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r drefn safonau yn sicr wedi llwyddo i godi proffil yr iaith Gymraeg.

Llwyddodd y ddeddfwriaeth i newid y drefn cynllunio gweithlu dwyieithog yng NgholegauCymru a cholegau, gyda chynnydd clir yn nifer y swyddi a hysbysebir gyda'r Gymraeg yn hanfodol a / neu'n ddymunol. Mae hyn yn adlewyrchu ac yn fesur llwyddiant y ddeddfwriaeth. Mae recriwtio siaradwyr Cymraeg neu fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu Cymraeg i staff yn caniatáu i'r sefydliadau gynnig gwell gwasanaeth dwyieithog. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng NgholegauCymru, gyda siaradwyr Cymraeg wedi'u recriwtio i swyddogaethau megis, Cynorthwyydd Marchnata a Chyfathrebu Digidol a Chynorthwyydd Materion Cyhoeddus. O ganlyniad mae cynydd yn ein gallu i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac ymateb i alw cwsmeriaid.

I'r gwrthwyneb, mae safonau'n parhau i fod yn niferus, yn gymhleth ac mewn perygl o gael eu camddehongli’n ymarferol. Nod y codau ymarfer oedd osgoi union fath o gamddehongliad, a byddai wedi bod yn gefnogaeth wych pan roddwyd hysbysiadau cydymffurfio i sefydliadau yn gyntaf dderbyn y codau ymarfer yma ru’n pryd. Dylai fod yn ofynnol i gyrff ddelio â chwynion am y Safonau yn fewnol yn y lle cyntaf. Dim ond mewn achosion difrifol y dylai'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion.

Mae yna berygl y gallai'r amser a dreulir ar gydymffurfiaeth ddargyfeirio adnoddau a staff oddi wrth y brif dasg o wella mynediad at, a defnydd o, wasanaethau Cymraeg.

[1] Mae’r 13 yn cynwys colegau AB ac Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales. Mae’r Y Coleg Merthyr Tudful, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn rhan o grŵpiau prifysgolion.

Mae angen symleiddio'r system gyda chydbwysedd gwell rhwng cydymffurfiaeth ac hyrwyddiad. Fodd bynnag, dylid cadw'r cysyniad o Safonau Iaith Gymraeg.

Cwestiwn 2

Asesu a yw’r fframwaith deddfwriaethol yn cefnogi’r gwaith o hyrwyddo’r Gymraeg a’r defnydd ohoni ynteu’n cyfyngu ar y gwaith hwn.

Amcan y fframwaith deddfwriaethol yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng hyrwyddo'r iaith a rheoleiddio dyletswyddau’r iaith Gymraeg. Rôl y Comisiynydd yw hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a gwella'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r fframwaith cydymffurfio cyfredol yn gymhleth ac yn cymryd swm anghymesur o adnoddau ac amser. Nawr yw'r amser i ailystyried y cydbwysedd hwn, gyda mwy o bwyslais ar hyrwyddo ac annog pobl i ofyn, a defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael.

Roedd gan yr ymgyrch hyrwyddo #hawliau diweddar yr ethos iawn, ond teimlai rhai colegau ei bod yn anelu at staff a myfyrwyr addysg uwch yn fwy nag addysg bellach.

Mae nifer o fentrau cystadleuol o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae angen ymagwedd fwy strategol a chyd cysylltiedig gyda Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agosach.

Mae colegau addysg bellach mewn sefyllfa dda i hyrwyddo’r iaith Gymraeg i staff a dysgwyr a gellid eu defnyddio'n fwy effeithiol.

Cwestiwn 3

Persbectif rhyngwladol – casglu tystiolaeth ar ddeddfwriaeth i warchod a hyrwyddo gwaith cynllunio ieithyddol yng nghyd-destun iethoedd lleiafrifol mewn gwledydd eraill.

Mae ColegauCymru wedi cymryd diddordeb brwd mewn cynllunio a hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol o wledydd eraill. Yn ymrwymedig i feincnodi rhyngwladol fel blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, mae ColegauCymru wedi hwyluso dwy daith a ariennir gan Erasmus+ ar gyfer staff colegau i Wlad y Basg a Chatalonia. Roedd y ddwy daith yn edrych ar gynllunio ieithyddol a hyrwyddo iaith leiafrifol mewn addysg alwedigaethol.

Mae agweddau tuag at ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn y gwledydd hyn yn iach. Wedi'i ysgogi gan ymrwymiad y Llywodraeth, gwelir iaith fel modd o gyfathrebu ac nid oes llawer o ffrithiant na chystadleuaeth rhwng defnyddio un neu'r llall. Mae dysgu iaith wedi'i fewnosod yn y system addysg gyfan ac mewn gweithrediadau busnes ac fe'i gwelir fel ffordd o ychwanegu gwerth at economi’r Basg, er enghraifft.[2]

---

[2] http://www.euskara.euskadi.eus/contenidos/informacion/value_economic_impact_basque/en_def/adjuntos/Euskararen%20eragin%20ekonomikoa_Laburpena_English%20AZKENA%202.pdf

Fodd bynnag, mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar gynlluniau iaith effeithlon, gan gynnwys cyfyngiadau ariannol - Mae economi Cymru ar hyn o bryd yn wahanol iawn i wledydd eraill a archwiliwyd. Er enghraifft, mae buddsoddiad ariannol yn yr iaith Basgeg wedi bod yn sylweddol a byddai'n anodd cyfateb â'r lefel hon yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae ColegauCymru a'r sector addysg bellach wedi ymrwymo i chwarae rôl ganolog wrth gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei uchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hon yn her werth chweil. Gyda'i gilydd fel cenedl, gyda'r cydbwysedd cywir o ddeddfwriaeth, rheoleiddio, a hyrwyddo mae gwir botensial i newid dyfodol yr iaith a chreu Cymru wirioneddol ddwyieithog.